## Y Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu yng Nghymru:

# Gwella Addysgu ar gyfer Dysgwyr Rhwng 7 a 14 Oed

Gan Gary Beauchamp a Cheryl Ellis, UWIC; Tony Elliott a Bryn Tomos, Prifysgol Bangor

Golygwyd gan John Furlong, Prifysgol Rhydychen, 2010

Rhwydwaith Ymchwil Addysg Cymru
Welsh Education Research Network

T·L·R·P
TEACHING & LEARNING RESEARCH PROGRAMME

E·S·R·C
ECONOMIC & SOCIAL RESEARCH COUNCIL

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Y Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu yng Nghymru

**Tystiolaeth ymchwil ar gyfer polisi ac arfer addysgol yng Nghymru**

Y Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu (TLRP) (www.tlrp.org/), a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), yw'r rhaglen ymchwil addysgol fwyaf a gomisiynwyd yn y DU erioed. Roedd y rhaglen yn cynnwys 52 o brosiectau mawr gwahanol, yn cwmpasu pob rhan o'r system addysg o'r blynyddoedd cynnar i ddysgu gydol oes.

Wrth i'r TLRP ddirwyn i ben, daeth yr ESRC, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Rhwydwaith Ymchwil Addysgol Cymru (WERN) ynghyd i gomisiynu prosiect terfynol a gynlluniwyd i ystyried goblygiadau canfyddiadau'r rhaglen ymchwil fawr hon ar bolisi ac arfer addysgol yng Nghymru.

Mae pedwar tîm o ymchwilwyr o bob cwr o Gymru wedi adolygu canfyddiadau'r TLRP mewn perthynas â phedwar maes allweddol o bolisi Cymru a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a chafodd y gwaith hwnnw ei gydlynu gan John Furlong o Brifysgol Rhydychen.

Y pedwar maes polisi oedd:

- Y Cyfnod Sylfaen
- Gwella Addysgu ar gyfer dysgwyr rhwng 7 a 14 oed
- Cynhwysiant Cymdeithasol
- Gwella Dysgu drwy Ystyried Safbwyntiau Dysgwyr.

Canlyniad yr adolygiadau yw cyfres o bosteri a phapurau briffio i gyflwyno canfyddiadau'r rhaglen ymchwil fawr hon i lunwyr polisi ac ymarferwyr ledled Cymru. Mae'r adroddiadau'n cynrychioli canfyddiadau timau ymchwil annibynnol; felly, nid ydyn nhw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

# Crynodeb Gweithredol

Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi creu gweledigaeth newydd eto ar gyfer addysgu'r grŵp oedran 7–14 oed yn yr un ffordd ag y mae wedi gweddnewid y cwricwlwm ar gyfer y grwpiau oedran iau a hŷn (y Cyfnod Sylfaen newydd ar gyfer plant 3–7 oed, a Llwybrau Dysgu ar gyfer dysgwr 14–19 oed).

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried tystiolaeth o amrywiaeth o brosiectau'r Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu (TLRP), ac mae'n rhoi sail dystiolaeth ar gyfer datblygiadau pellach mewn addysg ar gyfer y grŵp oedran 7–14 oed.

O'r adolygiad cychwynnol o ymchwil y TLRP (tlrp.org), cafodd wyth prosiect eu dewis fel rhai perthnasol i'r grŵp oedran 7–14 oed. Mae'r canfyddiadau yn gysylltiedig â thri o feysydd y Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion[i]: Cwricwlwm ac addysgu, Arweinyddiaeth a Gweithio gydag eraill.

Oherwydd y cyfyngiadau o ran yr hyn y gellir ei gynnwys yma, byddem yn eich annog i ddarllen yr adroddiadau gwreiddiol i feithrin dealltwriaeth ehangach o amrywiaeth cyfoethog yr ymchwil a gyflawnwyd a'i pherthnasedd i addysg yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod nifer o faterion ychwanegol, sy'n bwysig iawn i bolisi addysg yng Nghymru, na chawson nhw eu hystyried fel rhan o ymchwil y TLRP ac felly, nad ymdrinnir â nhw yn yr adolygiad hwn.

## 1.

## Canfyddiad allweddol:

**Cwricwlwm ac addysgu**

Addysgu ymddiddanol/rhyngweithiol: mae mwy o addysgu rhyngweithiol iawn, neu 'ymddiddanol', mewn ysgolion yn fwy buddiol i ddysgu. Gyda dull gweithredu rhyngweithiol, caiff dysgwyr fwy o ddylanwad dros y dysgu na gydag addysgu 'awdurdodol' mwy uniongyrchol.

Dysgu sut i ddysgu (LHTL): caiff LHTL ei osod yn ei gyd-destun; ni ellir ei wahanu oddi wrth ddysgu 'rhywbeth'. Mae 'gwersi meddwl' yn gofyn am ddulliau addysgu sy'n defnyddio adnoddau gwybyddol a chymdeithasol ystafelloedd dosbarth.

Gwaith grŵp: Caiff gwaith grŵp fwy o ddylanwad cadarnhaol ar gynnydd academaidd na mathau eraill o addysgu a dysgu. Mae gan TGCh y potensial i gefnogi gwaith grŵp.

Defnyddio TGCh: Mae'r athro/athrawes yn allweddol wrth ddefnyddio TGCh yn llwyddiannus wrth ddysgu; gall TGCh gefnogi rhyngweithio myfyriol, ymddiddanol; a gall TGCh helpu i ennyn diddordeb dysgwyr yng nghynnwys gwersi a dylanwadu ar wersi.

## Prif oblygiadau:

Addysgu ymddiddanol/rhyngweithiol: mae adborth a rhyngweithio parhaus yn allweddol i annog rhyngweithioldeb ymddiddanol. Mae athrawon yn dod yn rheolwyr neu'n hwyluswyr, mae dysgwyr yn weithredol; yn holi, yn gwerthuso ac yn esbonio. Dylai hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) annog y defnydd o adnoddau TGCh sy'n cefnogi rhyngweithio ymddiddanol a gall olygu bod dysgwyr yn dysgu'n fwy.

LHTL: mae angen gwersi LHTL ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Mae'n cymryd amser a chymorth gofalus i ddatblygu gallu plant i ddysgu a meddwl yn fwy medrus. Mae angen cyfleoedd ar ddysgwyr i siarad am brosesau meddwl, i gyd-adeiladu ystyr, i werthuso prosesau meddwl ac i lunio cysylltiadau yn y cwricwlwm a'r tu hwnt iddo.

Gwaith grŵp: er bod dysgwyr yn eistedd mewn grwpiau yn aml, nid ydyn nhw bob amser yn gweithio fel grwpiau. Mae angen ailystyried damcaniaethau addysgeg sy'n ffafrio sefyllfaoedd dan arweiniad yr athro/athrawes a gwaith unigol.

Defnyddio TGCh: dylai fod cysylltiad clir rhwng darpariaeth TGCh mewn ysgolion a strategaeth datblygiad proffesiynol ar gyfer addysgeg ryngweithiol. Mae angen i ddatblygiad proffesiynol alluogi athrawon i fentro o ran TGCh a dysgu.

# 2.

## Canfyddiad allweddol:

**Arweinyddiaeth**

Mewn perthynas ag Arweinyddiaeth, nodwyd dwy thema:

'Hwyluso' arweinyddiaeth ysgolion: mae newid effeithiol yn golygu mynd tu hwnt i weithdrefnau arwynebol ac ymgysylltu ag egwyddorion dysgu ac addysgu.

Datblygu staff: mae amrywiadau yng ngwaith athrawon, eu bywydau a'u hunaniaeth, a'u gallu i reoli'r rhain, yn effeithio ar eu gallu i fod yn effeithiol, ond caiff DPP ddylanwad cadarnhaol yn gyson ar athrawon ym mhob cyfnod o'u bywyd proffesiynol.

## Prif oblygiadau:

'Hwyluso' arweinyddiaeth ysgolion: mae'n rhaid i arweinwyr fod yn hyderus a chael cymorth da er mwyn rhoi cyfleoedd i'w staff arloesi, a dysgu o 'fethiant'.

Datblygu staff: mae awgrymiadau ymarferol i athrawon yn ddefnyddiol ar gyfer athrawon newydd neu athrawon llai hyderus yn y byrdymor. Ond mae angen adeiladu arnyn nhw'n gyflym mewn rhaglenni datblygiad proffesiynol cydlynol a chynyddol.

# 3.

## Canfyddiad allweddol:

**Gweithio gydag eraill**

Ym maes Gweithio gydag eraill, mae tair thema yn dod i'r amlwg:

Ymgysylltu â rhyngweithio â rhieni, dysgwyr a'r gymuned: gall gweithgareddau Cyfnewid Gwybodaeth rhwng y Cartref a'r Ysgol (HSKE) gael effaith gadarnhaol ar athrawon, rhieni, plant, a chyrhaeddiad. Mae stôr o wybodaeth yn y cartref ymhlith rhieni, plant ac aelodau eraill o'r teulu estynedig, gellir ei defnyddio i gefnogi dysgu plant.

Cydweithredu ag Addysg Uwch (AU): mae deialog myfyriol ag arsylwr arbenigol yn werthfawr i ddatblygiad proffesiynol athrawon.

Pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd: mae plant mewn ysgolion sy'n cyflawni 'gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth' yn gallu gwneud cynnydd cyflymach mewn darllen o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, bod yn fwy cadarnhaol am ddysgu ac addasu'n gyflymach i rai agweddau o'r ysgol.

## Prif oblygiadau:

Ymgysylltu â rhyngweithio â rhieni, dysgwyr a'r gymuned: mae angen i ysgolion ddod o hyd i ffyrdd newydd o wneud y stôr o wybodaeth gymunedol yn fwy gweladwy yn yr ysgol. Dylai llunwyr polisi addysgol ac arweinwyr ysgolion cynradd roi mwy o flaenoriaeth i gyfnewid gwybodaeth rhwng y cartref a'r ysgol.

Cydweithredu ag addysg uwch (AU): mae angen i athrawon sy'n defnyddio TGCh i ategu dulliau ymddiddanol gael hyfforddiant fel mentoriaid i gefnogi eu cydweithwyr.

Pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd: mae gan deuluoedd ac athrawon lawer o wybodaeth sy'n berthnasol i'r cyfnod pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, ond yn aml mae athrawon uwchradd yn anwybyddu hyn. Mae'r broses o bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn broses hirdymor, a dylai'r gwaith o gynllunio ar ei chyfer gwmpasu Blynyddoedd 5–8.

# Y Dystiolaeth Ymchwil

## 1. Cwricwlwm ac addysgu

**Prosiectau yr ymgynghorwyd â nhw:**

***ACTS (Ysgogi Sgiliau Meddwl Plant) II: Ystafelloedd Dosbarth Meddwl yn Gynaliadwy 2001-2004***
www.tlrp.org/proj/phase11/phase2g.html

***Addysgu Rhyngweithiol a TGCh***
www.tlrp.org/proj/kennewell.html

***Gwella Effeithiolrwydd Grwpiau Dysgwyr mewn Ystafelloedd Dosbarth***
www.tlrp.org/proj/phase11/phase2a.html

***Addysg Ryngweithiol: Addysgu a Dysgu yn yr Oes Wybodaeth***
www.tlrp.org/proj/phase11/phase2i.html

***Dysgu sut i ddysgu – mewn ystafelloedd dosbarth, ysgolion a rhwydweithiau***
www.tlrp.org/proj/phase11/phase2f.html

***Tuag at Arfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth mewn Addysg Gwyddoniaeth (Papur briffio ymchwil 3: Addysgu Syniadau am Wyddoniaeth i Ddysgwyr)***
www.tlrp.org/proj/phase1/phase1bsept.html

Cyhoeddwyd y prosiectau uchod yn Saesneg ar wefan TLRP.

## Addysgu ymddiddanol/rhyngweithiol

Mae mwy o addysgu ymddiddanol – 'rhyngweithiol iawn' – yn fanteisiol i ddysgu. Mae dull rhyngweithiol o addysgu yn gofyn am i rôl yr athro/athrawes a'r dysgwr bellhau o ddulliau addysgeg fwy traddodiadol. Mewn gwers ymddiddanol, mae'r athro/athrawes yn fwy o reolwr neu hwylusydd rhyngweithiadau sydd wedi'u cynllunio i arwain at ddysgu. Ochr yn ochr â hyn, mae dysgwyr yn chwarae rhan weithredol ac yn ymgymryd â gweithredoedd a oedd yn gysylltiedig yn draddodiadol â'r athro/athrawes, megis holi, gwerthuso ac esbonio.

Y ffactorau allweddol sy'n annog rhyngweithio ymddiddanol yw:

- adborth ar ymateb y dysgwyr
- cynnal rhyngweithio am gyhyd ag y bo angen i ddysgu.

Mae gwaith grŵp yn annog dysgwyr i gychwyn rhyngweithio, a gellir strwythuro tasgau er mwyn sicrhau bod rhyngweithio yn digwydd – gweler y thema ar Gwaith grŵp isod hefyd.

Mae gan TGCh ran i'w chwarae yn y broses hon: mae athrawon da yn defnyddio TGCh i ysgogi a chefnogi rhyngweithio myfyriol ac ymddiddanol. Gall TGCh fod yn ffordd o annog dysgwyr na fyddai'n rhoi cynnig ar ateb fel arfer. Gall TGCh hefyd helpu i ennyn diddordeb dysgwyr yng nghynnwys y gwersi ac i ddylanwadu ar lwybr gwersi, ond nid yn y ffordd a fwriadwyd bob amser. Ceir achlysuron pan fydd dysgwyr yn defnyddio meddalwedd i gyflawni canlyniad tasg heb ddilyn y gweithdrefnau mae athrawon yn eu disgwyl. Felly, dylai athrawon fod yn ymwybodol o'r angen i ymyrryd yn ystod tasgau TGCh. Mae athrawon cyfrwng Cymraeg yn nodi bod prinder adnoddau TGCh cyhoeddedig a neilltuodd rhai athrawon gryn amser i ddewis deunydd addysgu priodol, oherwydd yr anhawster i ddod o hyd i ddeunyddiau â'r her briodol.

Mae *Tuag at Arfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth mewn Addysg Gwyddoniaeth*[ii] yn nodi, wrth addysgu themâu gwyddoniaeth, fod dealltwriaeth athro/athrawes o natur gwyddoniaeth yn llai pwysig nag y disgwylir. Yn hytrach, roedd arddull a chredoau addysgeg yr athro/athrawes yr un mor bwysig. Yn benodol, roedd gallu athrawon i strwythuro a hwyluso gwaith holi ymddiddanol mwy agored yn yr ystafell ddosbarth, yn hanfodol.

## Dysgu sut i ddysgu (LHTL)

Mewn cymdeithas lle caiff dysgu gydol oes ei werthfawrogi, mae angen i ddysgwyr ddod yn ddysgwyr annibynnol. Er mwyn i LHTL lwyddo, mae angen i athrawon hyrwyddo annibyniaeth dysgwyr a sicrhau bod hyn yn digwydd. Ceir cyffelybiaeth amlwg rhwng hyn a'r cysyniad o addysgu ymddiddanol a ystyriwyd uchod. Mae angen i athrawon fabwysiadu athroniaeth sy'n grymuso a'i chyfleu i'w dysgwyr, ac mae angen i ysgolion ddatblygu arfer yn yr ystafell ddosbarth sy'n helpu dysgwyr i ddysgu sut i ddysgu.

Mae arferion sy'n debygol o hyrwyddo LHTL yn gorgyffwrdd â'r rhai sy'n gysylltiedig ag asesu ffurfiannol neu Asesu ar gyfer Dysgu, ac yn adeiladu arnyn nhw. Maen nhw'n cynnwys egluro nodau meini

# Astudiaeth achos

**Thema:**

## Addysgu ymddiddanol

**Teitl y prosiect:**

**Addysgu Rhyngweithiol a TGCh**

Ym mhrosiect *Addysgu Rhyngweithiol a TGCh* y TLRP, cyfwelwyd â grwpiau o ddysgwyr cynradd ac uwchradd gan ofyn cwestiynau am eu dysgu a'u defnydd o TGCh. Mynegodd y dysgwyr amrywiaeth eang o sylwadau unigol am bob mater a ystyriwyd. Fel y gellid ei ddisgwyl gydag ystod oedran mor eang, roedd dysgwyr yn amrywio yn eu ffafriaeth o ddulliau cyfathrebu penodol gwahanol, gan gynnwys defnyddio caneuon, sgyrsiau, tynnu llun, trin offer, symud yn gorfforol, lluniau a ffilmiau. Roedd llawer o ddysgwyr yn nodi nad oedden nhw'n hoffi ysgrifennu. Dywedodd llawer o'r dysgwyr fod copïo o'r bwrdd neu lyfrau yn ffactor negyddol wrth ddysgu.

Cydnabu rhai dysgwyr eu bod hefyd yn dysgu drwy wylio dysgwyr eraill yn cyflawni pethau, a gwneud camgymeriadau, o flaen y dosbarth. Roedd y bwrdd gwyn rhyngweithiol yn nodwedd allweddol yn y broses hon.

**Sylw:**

**Cytunodd dysgwyr o bob oed y dylai gwersi gynnwys cyfle i gyfranogi'n weithredol a 'hwyl'. Byddai nodweddion o hyn yn cynnwys elfennau anrhagweladwy, derbyn adborth cyflym, ac i rai, cystadleuaeth. Nododd llawer o ddysgwyr yn glir fod 'hwyl' yn ffactor a'u helpodd i ddysgu. Roedd gwerth TGCh yn glir am ei fod yn ategu cyfranogiad a hwyl, felly roedd gemau a chwisiau yn arbennig o boblogaidd. Roedden nhw'n gwerthfawrogi'r defnydd o elfennau gweladwy, eglurder a derbyn adborth cyflym ar eu syniadau hefyd.**

prawf dysgu, myfyrio ar ddysgu, a gweithredu ar adborth. Nid yw hyn bob amser yn hawdd ac mae ymchwil yn awgrymu bod y rhaglen Asesu ar gyfer Dysgu wedi'i rhoi ar waith yn aml fel cyfres o gyfarwyddiadau a drosglwyddwyd i athrawon a bod nod cyffredinol dysgu annibynnol wedi'i golli i raddau[iii]. Pan fydd arfer effeithiol wedi'i ddatblygu, mae'n bwysig bod ysgolion yn datblygu rhwydweithiau i rannu'r syniadau a'r dulliau gweithredu hyn yn gyflym.

Ceir enghreifftiau da o athrawon yn ceisio hyrwyddo LHTL mewn ffyrdd sy'n cyfateb â'u gwerthoedd eu hunain, ond gall hyn fod yn anodd mewn system sy'n canolbwyntio ar berfformiad. Er mwyn i athrawon symud o ddibynnu ar dechnegau penodol i arferion sy'n seiliedig ar egwyddorion dwfn, yn ogystal ag ailystyried eu barn sylfaenol eu hunain am ddysgu a rôl yr athro/athrawes, mae angen iddyn nhw hefyd allu mentro – syniad a ystyrir eto yn 'Defnyddio TGCh' ar dudalen 5. Mae gan holi sy'n canolbwyntio ar yr ystafell ddosbarth gan athrawon ran hollbwysig i'w chwarae yn hyn o beth, ac mae ysgolion sy'n manteisio ar fentrau megis LHTL yn rhoi blaenoriaeth i gymorth ar gyfer dysgu proffesiynol.

Cytunwyd yn gyffredinol na all plant feddwl yn well – gan roi rhesymau dros eu casgliadau, meddwl yn hyblyg ac yn greadigol, datrys problemau a gwneud penderfyniadau da – wrth ddysgu cwricwlwm sy'n seiliedig ar gynnwys yn unig. Un dull gweithredu llwyddiannus yw 'trwytho', sy'n gosod meddwl yng nghyd-destun testunau cwricwlaidd arferol. Wrth wneud hyn gellir addysgu dealltwriaeth o'r testun a meddwl am y testun ar yr un pryd. Gall trwytho ymwneud â phwnc penodol (gwyddoniaeth, mathemateg, hanes) neu gellir ei ddatblygu'n ehangach ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae angen i athrawon lunio, neu ail-lunio, gwersi o destunau ar draws y cwricwlwm yn hytrach nag addysgu gwersi meddwl sydd eisoes wedi'u paratoi. Fodd bynnag, er mwyn llwyddo i gynnwys ffocws amlwg a systematig ar feddwl yn y cwricwlwm, mae angen i athrawon gael amser i gynllunio, a chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol cydweithredol.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod yn rhaid llunio 'gwersi meddwl' ar y cyd â'r broses o ddatblygu dulliau addysgu sy'n ennyn diddordeb dysgwyr yn wybyddol ac yn gymdeithasol. Mae ymchwil yn awgrymu ei bod yn cymryd amser i feithrin gallu plant i ddysgu a meddwl yn fwy medrus. Mae angen cymorth gofalus er mwyn i blant ddod yn annibynnol a gallu eu rheoli eu hunain. Wrth ehangu'r sgiliau meddwl a roddir ar waith, dylid rhoi sylw penodol i blant â sgiliau gwybyddol a chymdeithasol is.

## Gwaith grŵp

Ceir bwlch eang rhwng potensial gwaith grŵp a'i ddefnydd cyfyngedig mewn ysgolion. Yn aml, trefnir grwpiau mewn dosbarthiadau heb farn strategol am eu pwrpas, ac er y gall rhai tasgau gael eu neilltuo i grwpiau o ddysgwyr, nid oes digon o gymorth ar gyfer rhyngweithio rhwng dysgwyr o fewn grwpiau

er mwyn sicrhau bod y dysgu yn effeithiol. Ni chaiff dysgwyr eu hyfforddi'n aml ar gyfer gwaith grŵp, ac mae athrawon yn amheus o ran trefnu a rheoli gwaith grŵp mewn ystafelloedd dosbarth ac nid oes ganddyn nhw ddigon o strategaethau effeithiol i wneud hynny. Yn hytrach, mae dysgwyr yn gweithio'n unigol neu fel dosbarth cyfan, ac felly'n cael eu rhoi mewn sefyllfa sy'n golygu bod sgwrsio cymdeithasol yn tynnu eu sylw yn aml.

Mae rhoi llawlyfr o strategaethau a chyngor ymarferol i athrawon ac ysgolion, yn seiliedig ar egwyddorion allweddol, a chymorth ar gyfer trefnu, rheoli a gwella effeithiolrwydd gwaith grŵp yn ddull llwyddiannus o integreiddio gwaith grŵp i fywyd bob dydd yn yr ystafell ddosbarth.

Yn ogystal â hybu datblygiad cymdeithasol, gall gwaith grŵp fod yn fwy manteisiol i gynnydd academaidd na mathau eraill o addysgu a dysgu o dan amodau arferol yn yr ystafell ddosbarth. Ceir manteision posibl o ran cynnydd academaidd dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol (CA) 1, 2 a 3. Arweiniodd y prosiect *Gwella Effeithiolrwydd Grwpiau Dysgwyr mewn Ystafelloedd Dosbarth* at fanteision yn CA1 o ran darllen a mathemateg. Yn CA2, ymddengys bod gwaith grŵp o fudd i bob math o wybodaeth mewn gwyddoniaeth, ond yn enwedig dealltwriaeth gysyniadol a meddwl yn gasgliadol. Yn CA3, mae llwyddiant gwaith grŵp yn dibynnu ar y math o destun, ond ymddengys ei fod o fudd i ddealltwriaeth wybyddol uwch. Yn ogystal â chynnydd academaidd, mae'r berthynas bersonol rhwng athrawon a'r dosbarth a rhwng dysgwyr yn y dosbarth yn gwella, cyn belled bod athrawon yn rhoi amser i hyfforddi dysgwyr mewn sgiliau gwaith grŵp. Mae hyn yn awgrymu y gall gwaith grŵp fod yn ddull effeithiol o ddisgyblu yn yr ysgol.

Mae hyfforddi dysgwyr mewn sgiliau grŵp, a defnyddio gwaith grŵp ochr yn ochr â mathau eraill o addysgu a dysgu, yn annog plant i chwarae mwy o ran yn y broses ddysgu ac yn hwyluso proses ddysgu sy'n fwy ystyrlon. Yn unol ag ymchwil arall a nodwyd yma, mae angen i athrawon ailystyried damcaniaethau addysgeg cyffredinol er mwyn cyflwyno gwaith grŵp effeithiol i'r ystafell ddosbarth.

Ni chydnabyddir potensial TGCh i gefnogi gwaith grŵp yn eang. Dylid adeiladu ar ymchwil i rôl TGCh i gefnogi mathau o siarad mewn gwaith grŵp drwy gael mwy o adnoddau a datblygiad proffesiynol.

## Defnyddio TGCh

Er gwaethaf buddsoddiad sylweddol gan y llywodraeth, mae'r defnydd effeithiol o TGCh mewn addysg yn parhau i amrywio. Er bod polisi swyddogol ar bob lefel yn argymell y dylid defnyddio TGCh yn yr ystafell ddosbarth, dim ond, prynu caledwedd a seilwaith sylfaenol sy'n digwydd mewn llawer o ysgolion. Mae lleoliad y caledwedd hyn yn aml yn llesteirio defnydd effeithiol ohoni a gall fod yn gyfyngedig i fannau penodol mewn ysgolion. Dangosodd y prosiect *Addysg Ryngweithiol: Addysgu a Dysgu yn yr Oes Wybodaeth* fod gan athrawon farn gadarnhaol ar dechnoleg. Dywedodd 47% iddi wella eu rôl fel athro/athrawes, a dywedodd 53% fod TGCh yn fanteisiol i'r amgylchedd dysgu. Pan fydd gwersi sy'n defnyddio TGCh yn mynd yn dda, mae athrawon yn tueddu i briodoli hyn i gymhelliant y dysgwyr, a phan fyddan nhw'n mynd yn wael, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn beio'r offer. Serch hynny, mae'r athro/athrawes yn parhau'n ganolog i'r defnydd llwyddiannus o DGCh ar gyfer dysgu.

Mae'r prosiect *Addysgu Rhyngweithiol a TGCh* yn awgrymu dylai athrawon ganolbwyntio ar weithgarwch mwy ymddiddanol sy'n cymysgu gwaith y dosbarth cyfan, gwaith mewn grwpiau bach, gwaith pâr a gwaith unigol sy'n cael ei ategu gan adnoddau priodol, wrth gynllunio'r defnydd o TGCh. Ceir tystiolaeth y gellir defnyddio TGCh i helpu yn hyn o beth, ond wrth ddechrau defnyddio TGCh, gall y lefel o ryngweithio fod yn gymharol isel wrth i athrawon feithrin sgiliau a gwerthuso'r adnoddau TGCh.

Gall TGCh gefnogi addysgu ymddiddanol drwy ddarparu ar gyfer rhyngweithio gan y dysgwyr:

- **ynghylch** adnoddau TGCh (megis trafod clip fideo neu werthusiad o waith ysgrifennu disgybl a arddangosir ar y bwrdd)
- **gydag** adnoddau TGCh (fel chwarae gêm neu roi cynnig ar her gan gael adborth ar unwaith)
- **drwy** TGCh (er enghraifft, mynd ati ar y cyd i ddatblygu map cysyniadau mewn Gwyddoniaeth neu lunio brawddeg yn Gymraeg).

Gellir defnyddio TGCh hefyd i ledaenu a rhannu syniadau. Mae'r prosiect Dysgu sut i ddysgu – mewn ystafelloedd dosbarth, ysgolion a rhwydweithiau yn ein hysbysu, er bod athrawon yn optimistaidd ynghylch gwerth adnoddau electronig at ddibenion datblygiad proffesiynol a rhwydweithiau, ni chân nhw eu defnyddio'n dda.

## 2. Arweinyddiaeth

**Prosiectau yr ymgynghorwyd â nhw:**

***ACTS (Ysgogi Sgiliau Meddwl Plant) II: Ystafelloedd Dosbarth Meddwl yn Gynaliadwy***
www.tlrp.org/proj/phase11/phase2g.html

***Addysg Ryngweithiol: Addysgu a Dysgu yn yr Oes Wybodaeth***
www.tlrp.org/proj/phase11/phase2i.html

***Dysgu Sut i Ddysgu – mewn Ystafelloedd Dosbarth, Ysgolion a Rhwydweithiau***
www.tlrp.org/proj/phase11/phase2f.html

***Amrywiadau yng Ngwaith a Bywydau Athrawon, a'u Heffeithiau ar Ddisyblion (VITAE)***
www.tlrp.org/dspace/retrieve/1786/Day+RB+20+FINAL.pdf

Cyhoeddwyd y prosiectau uchod yn Saesneg ar wefan TLRP.

## 'Hwyluso' arweinyddiaeth ysgolion

Fel sydd eisoes yn amlwg, mae newid mewn addysg, yn golygu mynd tu hwnt i weithdrefnau arwynebol ac ymgysylltu ag egwyddorion dysgu ac addysgu – mae hyn yn arbennig o wir i athrawon ond mae'n berthnasol i eraill hefyd. Mae angen i ddatblygiad parhaus a chynaliadwy athrawon ganolbwyntio nid yn unig ar arferion yn yr ystafell ddosbarth ond ar farn athrawon am ddysgwyr a dysgu, a delweddau ohonyn nhw. Caiff y thema hon ei chwmpasu'n fanylach yn y thema 'Datblygu staff' isod, ond mae'r cyd-destun ar gyfer newid yn ganolog i lwyddiant. Fel mae'r prosiect LHTL yn ei ddangos, gall athrawon a dysgwyr gael llawer o syniadau newydd, ond oni chaniateir iddyn nhw eu datblygu, syniadau ydyn nhw o hyd ac ychydig iawn o effaith a gân nhw. Er mwyn hwyluso'r newid i athrawon, mae angen i arweinwyr ysgol greu strwythurau a diwylliannau sy'n canolbwyntio ar ddysgu. Mae'n rhaid iddyn nhw helpu athrawon i greu, rhannu a gwerthuso arferion arloesol yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n rhaid i'r arweinwyr fod yn hyderus a derbyn cefnogaeth dda eu hunain er mwyn rhoi lle a chaniatâd i'w staff arloesi, ac efallai dysgu o 'fethiant'.

## Datblygu staff

Mae effeithiolrwydd yn syniad cymhleth mae angen ei ddeall mewn perthynas â chanfyddiadau athrawon a sut mae'r rhain yn amrywio dros amser mewn cyd-destunau sefydliadol a phersonol gwahanol, ac o'u cymharu ag athrawon eraill mewn cyd-destunau tebyg o ran cyrhaeddiad dysgwyr sy'n ychwanegu gwerth. Nid oed neu brofiad yn unig sy'n gwneud athrawon effeithiol. Mae'r canlynol yn dylanwadu hefyd:

- cyfnodau eu bywyd proffesiynol
- eu hymdeimlad o hunaniaeth broffesiynol
- eu hymrwymiad a'u gwydnwch.

Caiff effeithiolrwydd athrawon ei hyrwyddo drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus a'r graddau mae athrawon yn cynnal eu hymdeimlad o hunaniaeth broffesiynol gadarnhaol. Fodd bynnag, i lawer o athrawon, mae effeithiau DPP yn llai nag effeithiau'r amodau maen nhw'n gweithio ynddyn nhw, ansawdd arweinwyr yr ysgol (ar lefel yr ysgol a'r adrannau) a chydweithwyr, digwyddiadau a phrofiadau personol, ac effeithiau negyddol polisïau.

Mae anghenion athrawon yn amrywio drwy gydol eu gyrfaoedd, ond mae cyngor ar strategaethau a thechnegau dysgu ac addysgu amrywiol yn ddefnyddiol i athrawon newydd neu athrawon llai hyderus yn y byrdymor. Er hyn, mae datblygiad proffesiynol cynyddol yn ei gwneud yn ofynnol i athrawon ail-werthuso eu barn am ddysgu, y ffordd maen nhw'n strwythuro tasgau, a natur eu rolau a'u cydberthnasau yn yr ystafell ddosbarth. Mae gan holi sy'n canolbwyntio ar yr ystafell ddosbarth ran bwysig i'w chwarae ond mae'n gofyn llawer gan athrawon ac ysgolion oherwydd gallai olygu mentro, rhoi cyfle i graffu ar arfer yn feirniadol, cydweithredu a pharodrwydd i gymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau, camau gweithredu a chanlyniadau. Fel uchod, mae arweinwyr ysgolion yn bwysig oherwydd mae angen iddyn nhw greu strwythurau a diwylliannau sy'n helpu athrawon i rannu a gwerthuso arfer arloesol yn yr ystafell ddosbarth.

Mae angen i ddatblygiad athrawon parhaus ganolbwyntio nid yn unig ar arferion yn yr ystafell ddosbarth ond ar gredoau athrawon am ddysgwyr a dysgu, a delweddau ohonyn nhw. Yn ogystal, mae angen i ddatblygiad proffesiynol rymuso athrawon i fentro o ran TGCh a dysgu.

## 3. Gweithio gydag eraill

**Prosiectau yr ymgynghorwyd â nhw:**

***Cyfnewid Gwybodaeth rhwng y Cartref a'r Ysgol a Trawsnewid Addysg Gynradd 2001–2004 (Papur briffio ymchwil 22)***

***Cyfnewid Gwybodaeth rhwng y Cartref a'r Ysgol a Trawsnewid Addysg Gynradd 2001–2004 (Papur briffio ymchwil 45)***
www.tlrp.org/proj/phase11/phase2e.html

***Addysg Ryngweithiol: Addysgu a Dysgu yn yr Oes Wybodaeth***
www.tlrp.org/proj/phase11/phase2i.html

***TGCh ac Addysgu Rhyngweithiol***
www.tlrp.org/proj/kennewell.html

***Tuag at Arfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth mewn Addysg Gwyddoniaeth***
www.tlrp.org/proj/phase1/phase1bsept.html

Cyhoeddwyd y prosiectau uchod yn Saesneg ar wefan TLRP.

### Ymgysylltu â rhyngweithio â rhieni, dysgwyr a'r gymuned

Gall gweithgareddau Cyfnewid Gwybodaeth rhwng y Cartref a'r Ysgol (HSKE) gael effaith gadarnhaol ar athrawon, rhieni a phlant, ac ar gyrhaeddiad mewn llythrennedd a mathemateg. Mae stôr o wybodaeth mewn cartrefi a chymunedau y gellir ei ddefnyddio i gefnogi dysgu plant. Yn y broses hon, dylid cydnabod pwysigrwydd gwybodaeth y plant eu hunain.

Mae'r wybodaeth hon wedi'i gwreiddio mewn diwylliannau cenedlaethol ac ethnig, ac ym mhrofiad aelodau'r teulu. Mae diwylliant poblogaidd hefyd yn ddylanwad pwysig ar wybodaeth plant. Mae angen cael cyfathrebu dwyffordd – o'r cartref i'r ysgol yn ogystal ag o'r ysgol i'r cartref. Mae hyn yn gofyn am newid canfyddiadau'n sylweddol ymhlith athrawon a llunwyr polisi addysgol – o ystyried rhieni yn nhermau faint y gallan nhw gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth, i'w gweld fel ffynhonnell gwybodaeth am ddysgu eu plant tu allan i'r ysgol. Mae angen i ysgolion gydnabod hefyd yr hyn gall dysgwyr a'u teuluoedd ei gynnig a nodi ffyrdd o amlygu hyn yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr ysgol. Ceir cyfathrebu dwyffordd penodol rhwng y cartref a'r ysgol, er enghraifft, lle mae pobl ifanc yn trosglwyddo sgiliau TGCh (megis PowerPoint) i'w rhieni. Ceir enghreifftiau eraill o'r ffordd y gwneir gwybodaeth yn fwy diriaethol yn yr astudiaethau ymchwil (gan gynnwys fideos, ffotograffau a blychau esgidiau yn cynnwys eitemau pwysig). Gall gweithgareddau o'r fath roi mwy o wybodaeth i rieni am yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol, a helpu athrawon i ddeall mwy am fywydau'r plant tu allan i'r ysgol. Gallan nhw hefyd helpu athrawon i ddefnyddio'r wybodaeth am fywydau'r plant y tu allan i'r ysgol i gyfoethogi'r cwricwlwm.

## Astudiaeth achos

**Thema:**

### Ymgysylltu â rhyngweithio â rhieni, dysgwyr a'r gymuned

**Teitl y prosiect:**

**Gwella Llythrennedd a Mathemateg mewn Ysgolion Cynradd drwy Gyfnewid Gwybodaeth rhwng y Cartref a'r Ysgol**

Roedd y prosiect pedair blynedd hwn yn cynnwys cydweithio agos ag athrawon, rhieni a phlant i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso effaith gweithgareddau HSKE. Roedd yr ymchwil yn cynnwys tri maes allweddol, gan ganolbwyntio ar lythrennedd, mathemateg a hwyluso'r broses bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. (Gweler *Pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd* isod.)

Cafodd meysydd llythrennedd a mathemateg eu gweithredu mewn pedair ysgol gynradd 'weithredu'. Parwyd cyfres o ysgolion 'cymharu' â'r ysgolion gweithredu hefyd. Canfu ymchwilwyr fod llawer o wybodaeth mewn cartrefi a chymunedau plant sy'n cefnogi dysgu llythrennedd a mathemateg, ond nid yw plant na'u teuluoedd fel arfer yn ystyried eu bod yn gwneud 'llythrennedd' neu 'fathemateg' pan fyddan nhw'n cyflawni gweithgareddau o'r fath. Roedd gan rywfaint o'r wybodaeth yr oedd y plant

yn manteisio arni darddiad ethnig clir. Roedd plant hefyd yn manteisio'n sylweddol ar eu gwybodaeth am ddiwylliant poblogaidd megis rhaglenni teledu, ffilmiau, rhigymau plant a llyfrau. Ymddengys nad oedd athrawon y plant na'u rhieni yn gwbl ymwybodol o ddylanwad diwylliant poblogaidd ar waith dysgu llythrennedd y plant. Cydweithiodd ymchwilwyr yn agos ag athrawon a rhieni yn yr ysgolion gweithredu i ddatblygu rhaglen o weithgareddau HSKE, a datblygwyd gweithgareddau eraill hefyd a gyflwynodd wybodaeth i'r ysgol am fywydau'r plant tu allan i'r ysgol. Cafwyd llawer o dystiolaeth bod y gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth yn cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad plant.

Nodwyd sawl enghraifft o weithgareddau syml a all helpu i gyfnewid gwybodaeth rhwng y cartref a'r ysgol. Er enghraifft, defnyddiai sawl teulu o darddiad Asiaidd yr arfer traddodiadol o gyfrif llinynnau, lle yr oedd aelodau'r teulu yn cyfrif gan ddefnyddio cymalau'r bysedd i gynrychioli un uned. Roedd aelodau'r teulu estynedig yn aml yn chwarae rhan allweddol i drosglwyddo'r math hwn o wybodaeth. Cafodd un plentyn a oedd yn dysgu Punjabeg yn eu Gudwara lleol strategaethau gan ei thad-cu ar gyfer dysgu'r llythrennau ar gof, oherwydd ni allai eu cofio.

**Sylw:**

**Mae'r prosiect yn tanlinellu'r syniad nad dim ond addysgu sgiliau sylfaenol yn yr ysgol yw'r broses o ddatblygu galluoedd plant mewn meysydd megis llythrennedd a mathemateg. Mae'n ymwneud hefyd â chydnabod y ceir llawer o ddysgu yn y meysydd hyn tu allan i'r ysgol, gan fod plant yn defnyddio eu sgiliau llythrennedd a mathemateg newydd mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau bob dydd. Gellir manteisio ar y wybodaeth sylweddol ym mywydau'r plant tu allan i'r ysgol i ategu eu dysgu yn yr ysgol. Mae angen i athrawon ddod o hyd i ffyrdd newydd o nodi a chydnabod y wybodaeth hon a manteisio arni er mwyn ategu dysgu'r plant yn yr ystafell ddosbarth.**

**Mae'r broses hon o gyfnewid gwybodaeth yn gweithio dwyffordd. Gall gweithgareddau HSKE roi mwy o wybodaeth i rieni am yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol, a helpu athrawon i ddeall mwy am fywydau'r plant tu allan i'r ysgol hefyd. Goblygiadau'r enghreifftiau hyn yw bod angen teilwra gweithgareddau HSKE i'r cymunedau cartref a'r ysgol benodol dan sylw.**

## Cydweithredu ag addysg uwch (AU) – defnyddio tystiolaeth ymchwil

Yn yr adrannau blaenorol, ystyriwyd pwysigrwydd amgylchedd cefnogol. Unwaith bydd hyn wedi'i sefydlu, mae'n bosibl herio syniadau sylfaenol am ddysgu ac addysgu, gan gynnwys hunaniaeth a rôl yr athro/athrawes a'r dysgwr. Mae prosiectau'r TLRP yn dangos amrywiaeth o ddulliau sy'n helpu athrawon i herio syniadau mewn amgylchedd cefnogol. Gall cydweithwyr yn yr ysgol – neu gydweithwyr ym maes addysg uwch yn aml hefyd – roi'r cymorth a'r her angenrheidiol. Mae deialog myfyriol rhwng yr athro/athrawes a'r person sy'n arsylwi ynglŷn â gweithgareddau'r wers a gwerthusiad o'r adnoddau yn werthfawr i ddatblygiad proffesiynol athrawon. Wrth ddefnyddio TGCh, mae athrawon yn manteisio o gymorth mentor i ymchwilio i adnoddau, meithrin sgiliau a myfyrio ar eu haddysgu.

Wrth fyfyrio ar fod yn rhan o dîm ymchwil, mae athrawon yn gwerthfawrogi'r cyfle i gydweithredu ag athrawon eraill, ond maen nhw'n teimlo mai gwylio eu hunain yn addysgu, a thrafod rhannau o wersi ag ymchwilydd yw'r strategaethau mwyaf effeithiol. Drwy hyn, maen nhw'n fwy agored i syniadau, ac yn fwy hyderus i lunio barn annibynnol a datblygu eu harbenigedd eu hunain o ran TGCh.

Mae ymchwil yn awgrymu y dylai'r broses o ddatblygu adnoddau TGCh yn y dyfodol ganolbwyntio ar wella cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio ymddiddanol. Dylai fod cysylltiad clir rhwng darpariaeth TGCh mewn ysgolion a strategaeth datblygiad proffesiynol ar gyfer dysgu rhyngweithiol, fel bod athrawon yn meithrin dealltwriaeth o'r ffordd gall y defnydd o adnoddau TGCh gan athrawon a dysgwyr gefnogi rhyngweithio mwy ymddiddanol i'w dysgwyr.

Canfu'r prosiect *Addysgu rhyngweithiol a TGCh* fod athrawon da yn gallu siarad yn glir am eu strategaethau ymddiddanol a'r nodweddion yr oedden nhw'n chwilio amdanyn nhw mewn adnoddau TGCh er mwyn eu cefnogi. Roedden nhw'n gwerthfawrogi'r drafodaeth ag arsylwyr arbenigol, a oedd yn canolbwyntio eu gwaith meddwl ar yr hyn a oedd yn dylanwadu ar ddysgu. Mae hyn yn awgrymu gall strategaeth DPP yn seiliedig ar nodi athrawon sy'n defnyddio TGCh i ategu dulliau ymddiddanol, a'u

hyfforddi i fentora eu cydweithwyr mewn ysgolion neu glwstwr o ysgolion, fod yn fwy effeithiol na chyrsiau allanol na hyfforddwyr TGCh arbenigol.

Dangosodd y prosiect *Addysg Ryngweithiol: Addysgu a Dysgu yn yr Oes Wybodaeth* bod creu rhwydweithiau lle mae athrawon ac ymchwilwyr yn gweithio mewn partneriaeth i lunio a gwerthuso mentrau dysgu sy'n defnyddio TGCh fel dull dysgu yn fodel llwyddiannus ar gyfer datblygiad proffesiynol. Mae datblygiad proffesiynol o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i bobl ollwng rhagdybiaethau o rolau a chydberthnasau penodol, lle yr ystyrir ymchwilwyr yn draddodiadol yn bobl sy'n cynhyrchu gwybodaeth a lle yr ystyrir athrawon yn rhai sy'n trosi neu'n defnyddio gwybodaeth.

Ym maes datblygiad proffesiynol, mae rôl bwysig ar gyfer defnyddio canfyddiadau ymchwil. Rydym wedi gweld uchod y gall sicrhau bod deunyddiau addysgu yn seiliedig ar ganfyddiadau a sylwadau ymchwil ar gael, ddylanwadu'n fawr ar arfer athrawon. Mae'r prosiect '*Tuag at Arfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth mewn Addysg Gwyddoniaeth*' yn awgrymu, os caiff rhain eu 'trosi' yn oblygiadau ymarferol penodol, neu'n ddeunyddiau addysgu, mae'n debyg bydd cynnydd yn eu heffaith a maint eu heffaith.

# Astudiaeth achos

**Thema:**

## Cydweithredu ag addysg uwch (AU)

**Teitl y prosiect:**

**Tuag at Arfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth mewn Addysg Gwyddoniaeth (EPSE)**

Roedd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar dystiolaeth gall fod gan ddysgwyr nifer o gamsyniadau neu syniadau cyffredin sy'n wahanol i'r farn wyddonol a dderbynnir yn ymwneud â syniadau sylfaenol mewn Gwyddoniaeth[iv]. Nod yr astudiaeth hon oedd datblygu cronfa o gwestiynau diagnostig gallai athrawon eu defnyddio i asesu dealltwriaeth eu myfyrwyr o syniadau allweddol, ac wedyn addasu eu haddysgu o ganlyniad i'r wybodaeth hon. Roedd yn her allweddol creu cwestiynau diagnostig da.

Cynhyrchodd y prosiect gronfa fawr o gwestiynau diagnostig, yn seiliedig ar ymchwil flaenorol, ar gyfer testunau cylchedau trydanol, grymoedd a mudiant a modelau sylwedd mewn gwyddoniaeth – a chyfres lai o gwestiynau ar brosesau bywyd biocemegol (treulio, anadlu a ffotosynthesis). Datblygwyd y cwestiynau diagnostig hyn mewn cydweithrediad â 'grŵp partneriaeth' o ymarferwyr, a oedd yn cynnwys sawl athro cynradd ac uwchradd, cynghorwyr ALlau ac ysgrifenwyr deunyddiau addysgu. Treialwyd y cwestiynau diagnostig yn ysgolion yr athrawon partner, a chynhaliwyd cyfweliadau dilynol â sampl o fyfyrwyr i brofi eu dealltwriaeth ymhellach.

**Sylw:**

**Roedd y cronfeydd o gwestiynau wedi'u cynllunio i gael eu defnyddio'n hyblyg gan athrawon, gan eu galluogi i deimlo mwy o 'berchenogaeth' dros y deunydd a'i ddefnydd. Ychwanegwyd elfen o hygrededd oherwydd bod y cwestiynau wedi'u datblygu, eu treialu, eu gwerthuso a'u diwygio o ganlyniad i'w defnyddio mewn lleoliadau gwirioneddol yn yr ystafell ddosbarth. Mae natur gydweithredol yr ymchwil hon yn amlygu'r manteision pwysig a ddaw pan fydd rhannau gwahanol o'r gymuned addysg yn cydweithio.**

# Astudiaeth Achos

**Thema:**

## Cydweithredu ag addysg uwch (AU)

**Teitl y prosiect:**

**Gwella Effeithiolrwydd Grwpiau Dysgwyr mewn Ystafelloedd Dosbarth – Camau 1 a 2**

Canolbwyntiodd yr astudiaeth hon ar ymchwilwyr ac ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu llawlyfr sy'n awgrymu arfer da ar gyfer trefnu grwpiau, yn ogystal â strategaethau a gweithgareddau priodol a allai helpu i ddatblygu sgiliau gwaith grŵp. Helpodd y dull gweithredu hwn i ymarferwyr deimlo perchenogaeth dros y broses, ac roeddent yn gallu manteisio ar eu profiadau eu hunain yn yr ystafell ddosbarth i lywio'r broses. Fodd bynnag, rhoddodd y cyfle hefyd i'r ymchwilwyr roi cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth a anogodd yr athrawon, mewn rhai achosion, i fynd yn groes i'w teimladau 'greddfol' cychwynnol. Er enghraifft, cafodd athrawon eu hannog i barhau â grwpiau penodol er gwaethaf 'gwrthdaro' cychwynnol rhwng aelodau'r grwpiau.

**Sylw:**

**Roedd yr ymarferwyr yn gwerthfawrogi datblygiad adnodd ymarferol i'r ystafell ddosbarth – llawlyfr y gellid ei ddefnyddio i lywio arfer o ddydd i ddydd. Roedd yr adnoddau wedi'u cynllunio i gael eu defnyddio'n hyblyg, gan alluogi ymarferwyr i'w haddasu yn ôl eu sefyllfaoedd penodol nhw. Cyfunwyd yr elfennau gwahanol o wybodaeth ac arbenigedd a roddwyd gan yr ymchwilwyr a'r ymarferwyr ystafell ddosbarth.**

## Pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Mae'r broses o drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn broses hirdymor. Mae'r prosiect *Cyfnewid Gwybodaeth rhwng y Cartref a'r Ysgol a Trawsnewid Addysg Gynradd 2001–2004*[v] yn cynghori bod angen i'r broses drosglwyddo ddechrau ym Mlwyddyn 5 a pharhau hyd at Flwyddyn 8. Mae gan rieni, plant ac ysgolion cynradd lawer o wybodaeth gellir manteisio arni i ategu'r broses o bontio i ysgolion uwchradd, ond mae athrawon uwchradd yn aml yn anwybyddu'r wybodaeth hon.

Mae canfyddiadau ymchwil y prosiect hwn yn awgrymu y gall gweithgareddau 'cyfnewid gwybodaeth' gael effaith gadarnhaol ar y ffordd mae myfyrwyr yn addasu i'r ysgol uwchradd, ac mae hyn yn ei dro yn cael dylanwad mawr ar eu cyrhaeddiad. Mae hyn yn bwysig gan fod cydberthynas agos rhwng datblygiad cymdeithasol, economaidd ac academaidd. Canfu prosiect y TLRP fod plant mewn ysgolion lle mae gweithgareddau HSKE yn digwydd yn gwneud mwy o gynnydd mewn darllen dros y cyfnod a allai fod yn anodd wrth bontio rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7. Maen nhw hefyd yn fwy cadarnhaol ynghylch dysgu ac yn addasu'n gynt i rai agweddau ar eu haddysg uwchradd.

Mae'r un prosiect yn honni bod y broses o drosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn fygythiad posibl i hunaniaeth ddysgu a sefydlwyd mewn ysgol gynradd, yn ogystal â rhoi cyfle i ddatblygu hunaniaeth newydd. Felly, gall datblygu a chynnal 'hunaniaeth ddysgu' briodol i'r dysgwr wrth iddo bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd – a'r tu hwnt – fod yn hollbwysig. Yng nghanfyddiadau'r prosiect, ceir tystiolaeth i awgrymu gall plant sydd 'mewn perygl' arbennig wrth iddyn nhw drosglwyddo i'r ysgol uwchradd – megis bechgyn, a phlant o rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig – gael budd o broses cyfnewid gwybodaeth o'r fath rhwng yr ysgol a'r cartref. Fodd bynnag, mae angen i ysgolion sicrhau nad yw'r gweithgareddau hyn yn eithrio nac yn ymyleiddio dysgwyr na'u teuluoedd. Mae angen i ysgolion ystyried sut byddan nhw'n rhoi cymorth penodol i'r grwpiau 'mewn perygl' hyn. Gallai'r strategaethau hyn gynnwys gwahoddiadau personol, ymweliadau â'r cartref, galwadau ffôn rheolaidd ac ymdrechion i feithrin cydberthynas unigol â phob teulu.

# Astudiaeth achos

**Thema:**

## Pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

**Teitl y prosiect:**

**Cefnogi'r Broses o Drosglwyddo rhwng yr Ysgol Gynradd a'r Ysgol Uwchradd drwy Gyfnewid Gwybodaeth rhwng y Cartref a'r Ysgol**

Gwerthusodd y prosiect hwn effaith gweithgareddau HSKE ar y broses o blant yn trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Dilynodd yr ymchwilwyr garfan o ddysgwyr o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Datblygwyd gweithgareddau HSKE gyda'r grŵp hwn o ddysgwyr, eu teuluoedd a'u hathrawon. Cyflawnwyd rhai gweithgareddau cyn y broses drosglwyddo ym Mlwyddyn 6, a chyflawnwyd eraill ar ôl y broses drosglwyddo ym Mlwyddyn 7. Cymerodd cyfres o ysgolion 'cymharu' a oedd yn cyfateb i'r ysgolion gweithredu rhan hefyd. Nododd yr ymchwilwyr fod llawer o wybodaeth mewn cartrefi a chymunedau plant, y gellir manteisio arni i gefnogi'r broses drosglwyddo. Fodd bynnag, un o'r canfyddiadau allweddol oedd bod athrawon yn yr ysgolion cynradd yn awyddus i roi eu gwybodaeth i'r athrawon uwchradd ond bod ysgolion uwchradd yn aml yn anwybyddu neu'n diystyru'r cyfle hwn. Canfu ymchwilwyr, er bod llawer o wybodaeth o gefnogi'r broses drosglwyddo, fod meysydd hefyd lle yr oedd angen rhannu gwybodaeth yn ehangach ac yn fwy effeithiol rhwng yr ysgol gynradd, yr ysgol uwchradd a'r cartref. Datblygwyd amrywiaeth o weithgareddau cyfnewid gwybodaeth i ddiwallu'r anghenion hyn.

**Sylw:**

**Amlygodd y prosiect ymchwil hwn y ffaith mai proses yw trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn hytrach na digwyddiad un diwrnod. Efallai bydd angen i'r broses hon ddechrau mor gynnar â Blwyddyn 5 a pharhau i mewn i Flwyddyn 8. Canfu ymchwilwyr fod chwarae rhan mewn gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth yn golygu bod dysgwyr yn gwneud llawer mwy o gynnydd mewn llythrennedd rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7 o'u cymharu â myfyrwyr nad oedden nhw wedi bod yn rhan o hynny, ac roedden nhw'n yn gwneud mwy o gynnydd mewn mathemateg hefyd. Roedd agweddau myfyrwyr at eu dysgu yn ystod y cyfnod pontio yn fwy cadarnhaol hefyd pan oedden nhw wedi bod yn rhan o weithgareddau cyfnewid gwybodaeth. Awgrymodd canfyddiadau ymchwil fod gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth yn cael effaith gadarnhaol ar y ffordd yr oedd myfyrwyr yn addasu i'r ysgol uwchradd, a oedd yn cael effaith fawr ar eu cyrhaeddiad, gan fod cydberthynas agos rhwng datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac academaidd. Awgrymodd un o'r canfyddiadau allweddol fod y gweithgareddau hyn yn annog dysgwyr i ddatblygu neu gynnal 'hunaniaeth ddysgu' sy'n ffafriol i ddysgu yn yr ysgol newydd. Mae'r ymchwil yn awgrymu gall plant mewn grwpiau 'mewn perygl' gael yr un budd o weithgareddau cyfnewid gwybodaeth rhwng y cartref a'r ysgol â phlant o grwpiau eraill.**

## Nodiadau


i. APADGOS, 2008
ii. Papur Briffio Ymchwil 3
iii. Learning How to Learn – in Classrooms, Schools and Networks, Crynodeb Plain English, tudalen 2
iv. tudalen 25
v. Papur Briffio Ymchwil 45